Y CYDBWYLLGOR CRAFFU

DYDD LLUN, 6 MEHEFIN 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mitchell(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Clark, Hill-John, Howells, Lomax, Murphy, Sanders, Walker, White a/ac Darren Williams |

1 : CADEIRYDD

Penododd y Pwyllgor y Cynghorydd Mitchell yn Gadeirydd.

2 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

3 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

4 : CYN PENDERFYNU AR ADRODDIAD DRAFFT Y CABINET O'R ENW 'MODEL CYFLENWI AMGEN Y GWASANAETHAU SEILWAITH: Y CAMAU NESAF’

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad oedd yn rhoi cyfle i Aelodau graffu Achos Busnes Llawn y Gwasanaethau Seilwaith cyn i’r cynigion gael eu cyflwyno i’r Cabinet er cymeradwyaeth ar 16 Mehefin 2016. Argymhellwyd y dylai'r Aelodau ganolbwyntio ar graffu deilliannau dadansoddiad o Achos Busnes Llawn y Gwasanaethau Seilwaith; y rhesymeg y tu ôl i’r argymhellion yn yr achos busnes llawn; a'r camau nesaf a chamau i'r dyfodol i gyflenwi’r opsiwn Mewnol.

Roedd yr adroddiad yn nodi cefndir project Model Cyflenwi Amgen y Gwasanaethau Seilwaith, oedd wedi ceisio nodi ffyrdd i drawsnewid rhai o brif wasanaethau rheng-flaen y Cyngor drwy weithredu mesurau i wella perfformiad gwasanaethau ac i wneud arbedion. Gwerthuswyd nifer o opsiynau model cyflenwi gwasanaethau ac fe ffurfiodd ganlyniadau hyn sail Achos Busnes Terfynol y Gwasanaethau Seilwaith, a oedd wedi'i atodi i'r adroddiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod y project wedi gwella'r gwasanaeth i rhyw raddau; er enghraifft drwy ddatblygu dull Gwasanaethau Cymdogaeth a chynyddu refeniw y Gwasanaeth Gwastraff Masnachol. Yn ogystal, ymchwiliwyd i ddulliau arfer orau ledled y Deyrnas Unedig.

Amcanion project Model Cyflenwi Gwasanaeth Amgen y Gwasanaethau Seilwaith oedd:

- lleihau costau gweithredu
- gwella deilliannau i fynd i’r afael â gwendidau perfformiad presennol

- gwella boddhad cwsmeriaid, rheoli galw a lleihau galw methiant, i fynd i'r afael â'r galw cynyddol am wasanaethau yn fwy effeithiol;
- datblygu gweithio partneriaeth a chydweithio effeithiol
- optimeiddio cynhyrchiad incwm i gefnogi gwasanaethau sy'n cael eu hariannu

Darparwyd crynodeb o ystyriaeth flaenorol y Cabinet ar y project, ynghyd â manylion craffu blaenorol ar y mater hwn.

Cynghorwyd aelodau bod ymgysylltiad â rhanddeiliad yn mynd rhagddo gydag undebau, staff a thrigolion Caerdydd a defnyddiwyd hyn i lywio gwerthusiad y modelau cyflenwi gwasanaeth. Rhoddwyd crynodeb o'r gweithgareddau ymgysylltu a'r adborth a dderbyniwyd i'r Pwyllgor.

Cafodd yr un templed a ddefnyddiwyd i werthuso'r Achos Busnes Amlinellol ei ddefnyddio fel sail yr Achos Busnes Llawn. Adlewyrchodd hyn safon arfer gorau Swyddfa Masnach y Llywodraeth, fel a argymhellwyd y dylid ei ddefnyddio gan gyrff y sector gyhoeddus wrth werthuso cynigion sector gyhoeddus gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Roedd yr Achos Busnes Llawn yn canolbwyntio ar ddatblygiad strategaethau gwasanaeth pum-mlynedd ar gyfer pob gwasanaeth perthnasol a strategaeth gyffredinol ar gyfer y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd. Yna, ystyriwyd effaith y ddau fodel cyflenwi ar y strategaethau hyn.

Cynghorwyd y Pwyllgor mai'r prif thema a adnabuwyd yn ystod y broses werthuso oedd yr anghysondeb ymysg dulliau rheoli presennol mewn perthynas â chyflenwi gwasanaeth berthnasol neu chyd-ddibynnol. Awgrymwyd mai canlyniad y dull hwn oedd tameidio, gyda thystiolaeth gyfyngedig i adeiladu cydlyniad rhwng gwasanaethau cyffelyb. Mabwysiadwyd dull newydd gan yr Achos Busnes Llawn oedd yn ymwneud â chlystyru gwasanaethau i wneud y gorau o gyfleoedd i wella gwasanaethau a chynhyrchu incwm. Roedd y clystyrau newydd arfaethedig fel a ganlyn:

- Gwasanaethau Rheoli Gwastraff Ailgylchu
- Rheoli'r Holl Gyfleusterau
- Gwasanaethau Fflyd
- Gwasanaethau Cymdogaeth
- Priffyrdd
- Gwasanaethau Dylunio

Roedd modd i rai gwasanaethau ddechrau masnachu'n syth, tra bod gan y rhai eraill y gallu i fasnacheiddio, ond byddant angen cefnogaeth ddwys i gynyddu eu gallu i gynhyrchu incwm. Mewn gwasanaethau rheng-flaen, megis glanhau strydoedd. Mae'r prif fater yn ymwneud a'r angen i gynyddu cynhyrchedd ac effeithlonrwydd, ac i ysgogi newidiadau diwylliannol ehangach.

Roedd cyfleoedd hefyd i gydweithio ag awdurdodau cyfagos ar gyfer pob gwasanaeth o fewn y sgôp. Ystyriwyd y byddai cydweithio'n fwy debygol o ddigwydd ar ôl sefydlu model partneriaeth addas. Nodwyd y cyfleoedd cydweithio yn yr Achos Busnes Llawn. Gofynnwyd i aelodau gydnabod y gall model ar y cyd gymryd cryn amser i sefydlu, ac felly mae'r buddiannau wedi'u proffilio dros bum mlynedd yn yr Achos Busnes Llawn.

Roedd y strategaethau gwasanaeth yn eu tro yn ystyried cyfleoedd masnachu, yn benodol yn y meysydd datblygu ffrydiau presennol ac adnabod marchnadoedd newydd posib.  Ystyriwyd yn hanfodol fod pob gwasanaeth o fewn sgôp yn dod yn 'addas at y ddiben' ac yn darparu gwasanaethau cynaliadwy ac effeithlon i'r hir-dymor, fel bod modd gwella'r gallu i fasnachu.  Er mwyn cyflawni hyn, ystyriwyd y bydd angen i'r Cyngor:

- Gwblhau arolwg trylwyr o gyllidebau'r gwasanaethau sydd mewn sgôp sy'n sicrhau eu bod wedi alinio gyda strategaethau i'r dyfodol i gynnwys incwm glir a dadansoddiad cost;
- Sicrhau brandio sy'n pwysleisio'r sector gyhoeddus a'r sector fasnachol;
- Datblygu strategaeth a gwefan marchnata sydd wedi'u halinio gyda brandio a busnes
- Strategaeth ddatblygu;
- Mapio cwsmeriaid cyffredin ar draws gwasanaethau'n fewnol ac yn allanol;
- Creu cynllun datblygu busnes ar gyfer pob gwasanaeth ac ar draws gwasanaethau mewn sgôp gan wahaniaethu rhwng cyfleoedd brys a strategaeth hir-dymor unwaith y bydd gwasanaethau'n addas i fasnachu. Gwell dealltwriaeth o farchnadoedd targed, sectorau ac anghenion cwsmeriaid i'w ddatblygu, ynghyd â ffynonellau cyfleoedd masnachu.
- Sefydlu strategaeth brisio sydd ag egwyddorion masnachu clir ac sy'n sicrhau prisio cystadleuol heb anghofio'r cwsmer, gan sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio ag egwyddorion a deddfwriaeth Cymorth Gwladwriaethol;
- Cynyddu gallu masnachol y Cyngor;
- Ystyried i ba raddau y dylai'r Cyngor ddefnyddio'r gwasanaethau mewn sgôp yn hytrach na hybu gwariant trydydd partio, cyn belled ag y gall profi gwerth am arian a bod y gwasanaethau mewn sgôp yn cael digon o amser i ddod yn gystadleuol.

Drwy'r adroddiad, cafodd y Pwyllgor grynodeb o ddadansoddiad ariannol yr achosion busnes llawn.  Cynghorwyd aelodau fod datblygu'r ABLI wedi helpu diffinio ac ysgogi agenda newid, wrth godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd fasnachol.   Gwnaed cais i wasanaethau mewnol ymgysylltu i weld sut gellid gwneud gwelliannau.  Yn ogystal, roedd dealltwriaeth cynyddol o'r angen i fynd i'r afael â meddwl yn fasnachol a chynhyrchu gwell ddealltwriaeth o reolaeth gost a buddsoddi i mewn i asedau i gefnogi incwm masnachol.

Roedd adroddiad yr ABLI yn nodi y gallai Cwmni sydd ym Mherchnogaeth Llwyr (WOC) ddarparu mwy o fuddiannau i'r Cyngor dros gyfnod y pum mlynedd, er gan amlaf, mae'r buddiannau ychwanegol hynny yn cael eu cyflenwi o flynyddoedd 3 i 5. Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn nodi bod cyflawni arbedion ac incwm ychwanegol yn 2016/17 a 2017/18 yn parhau'n brif flaenoriaeth.

I'r perwyl hwnnw, bydd sefydlu strwythur llywodraethu cwmni, a threfniadau gweithredu ariannol a TGCh yn lwyth mawr ar adnoddau yn ystod y cyfnod dwy-flynedd critigol.  Gallai hyn greu risg i gyflenwad y newidiadau rheng-flaen sydd eu hangen i sicrhau arbedion prydlon.

Roedd yr adroddiad ABLI yn awgrymu bod amrywiaeth sylweddol o ran parodrwydd gwasanaethau i fasnachu, gan bod dadansoddiad yn seiliedig ar gost, TGCh, hyfforddiant staff a strategaethau marchnata mewn rhai gwasanaethau wedi'u datblygu yn annigonol.   Nodwyd meysydd i'w gwella yn yr adroddiad, gan gynnwys cynhyrchedd, technoleg annigonol, a gweithio aneffeithiol ac arferion rheoli.  Mae

angen i'r holl wasanaethau wella rheolaeth gost, gwneud y gorau o ffrydiau incwm newydd a phresennol a lleihau gwariant allanol.

Nododd yr adroddiad nad yw'r ddadl rhwng mewnol a WOC mor arwyddocaol â gweithredu dull cyson sengl i wella. Mae'r gofynion llwyddiant cyffredin yn y ddau fodel yn gyson.

Bydd y dull mewnol wedi'i addasu yn cynnwys ail-alinio gwasanaethau seilwaith sgôp i mewn i ddau raglen cyflenwol, sef:

- Datblygu Gwasanaethau Masnachol Caerdydd
- Trawsffurfio Gwasanaethau Cymdogaeth

Wrth galon y dull hwn fyddai ymyriadau gwella gwasanaeth effeithiol a dwys, fyddai'n cael ei oruchwylio gan y Bwrdd *Commercialisation and Accelerated Improvement* (Bwrdd C&AI Board) arfaethedig yn cynnwys Cyfarwyddwyr a chynrychiolwyr allanol perthnasol. Mandad y Bwrdd fyddai gyrru masnacheiddio a chynhyrchedd ledled y Cyngor. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno crynodeb ynghylch sut fyddai'r ffrydiau gwaith yn hanfodol i drefniadau Datblygu Sefydliadol ehangach y Cyngor ac yn sicrhau goruchwyliaeth a chefnogaeth ar lefel strategol i bob project masnachol yn y Cyngor.

Cynghorwyd aelodau bod y prif alluogwyr oedd eu hangen i weithredu'r MCA yn llwyddiannus yn torri ar draws nifer o wasanaethau, a byddai angen symud ymlaen yn brydlon er mwyn cyflenwi deilliannau cyflenwi gwasanaeth ac ariannol gwell. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Gweithredu pecyn Technoleg Gwybodaeth Rheoli Fflyd (TGRhFf) ar gyfer y Gwasanaeth Trafnidiaeth Canolog;
- Gweithredu pensaernïaeth mentrau newydd gan gynnwys trosglwyddo, trefnu a thechnoleg gweithio symudol i hwyluso effeithlonrwydd gweithredol a gwella gwasanaeth cwsmer;
- Datblygu brand masnachol a gwefan masnachol;
- Arolygu Fframweithiau'r Gwasanaethau Fflyd ac Adeiladu;
- Cefnogaeth gryf dros gyflwyno prentisiaethau a datblygu cysylltiadau gyda'r rhaglen NEET;
- Mabwysiadu dull 'Un Cyngor' o ran rheoli asedau, buddsoddi, datblygu a chynnal a chadw mewn perthynas ag asedau seilwaith y Cyngor;
- Arolwg cynhwysfawr o gyllideb pob gwasanaeth perthnasol er mwyn datblygu dealltwriaeth drylwyr o'r gwariant angenrheidiol a'r incwm er mwyn rheoli cyllidebau i gefnogi model darparu gwasanaeth i'r dyfodol;
- Ymgysylltu â'r Undebau Llafur a'r gweithwyr yn effeithiol ynghylch y gwelliannau gweithredol a adnabuwyd o fewn y gwasanaeth a'r strategaethau 'cyffredinol';
- Cefnogaeth i ymchwilio i gyfleoedd cydweithio gyda chynghorau eraill a chyrff cyhoeddus; ac
- Adnoddau mewnol ac allanol priodol i gefnogi amserlen y Rhaglen.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys amserlen y flwyddyn gyntaf.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad a'r Cynghorydd Bob Derbyshire, Aelod Cabiner dros yr Amgylchedd i'r cyfarfod. Gwahoddwyd yr Aelodau Cabinet i

gyflwyno sylwadau byr am MCD Seilwaith. Derbyniodd y Cynghorydd Derbyshire ei fod wedi cymryd cryn amser i wneud penderfyniad. Gwerthuswyd dau opsiwn, ac roedd yn hyderus mai'r Model Mewnol Diwygiedig oedd yr opsiwn cywir gyda chefnogaeth yr undebau. Nododd y Cynghorydd Hinchey ei fod yn hyderus y byddai'r opsiwn Mewnol Diwygiedig yn llwyddiannus drwy wneud fwy o gynnydd mewn meysydd megis lleihau absenoldebau salwch, staff ag aml-sgiliau drwy gyflwyno technolegau newydd. Roedd yr undebau wedi nodi eu parodrwydd i newid ac roedd ymgysylltu positif â staff wedi mynd rhagddo.

Rhoddodd y Prif Weithredwr wybod i Aelodau'r Pwyllgor bod galw mawr am newid yn y gwasanaeth. Yn ystod y broses MCA, nododd dadansoddi fod angen am ystod o welliannau yn ymwneud â phrosesau a thechnoleg. Roedd taro balans rhwng gwella gwasanaethau a chyflawni arbedion yn bwysig.

Cafwyd cyflwyniad ar Achos Busnes Llawn MCA y Gwasanaethau Seilwaith.

Cafodd y Pwyllgor gyfle i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu chodi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Ceir crynodebau o'r trafodaethau hynny isod:

- Roedd yr aelodau'n ystyried bod angen canolbwyntio ar arbedion yn ystod 2016/17 yn syth. Nododd Swyddogion y gall £63k o arbedion gael eu gwireddu'n syth, yn ychwanegol i'r arbedion a adnabuwyd yn y gyllideb.

- Byddai rhagor o arbedion yn cael eu gwireddu wrth i dechnolegau newydd gael eu gosod. Nododd y Prif Weithredwr ei fod wedi'i dderbyn y byddai arbedion Blwyddyn 1 yn araf; byddai arbedion yn cael eu cynyddu mewn blynyddoedd diweddarach.
  Nododd yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd ei bod wedi cymryd 3 mlynedd i wneud penderfyniad oherwydd cymhlethdod y materion oedd ynghlwm. Nid oedd Caerdydd eisiau gwneud yr un camgymeriadau ag awdurdodau eraill. Roedd dadansoddiad wedi nodi nad oedd rhai prif ardaloedd yn addas ar gyfer WOC.

- O ran cynrychiolaeth allanol ar y Commercialisation and Accelerated Improvement Board, nododd y swyddogion fod unigolion oedd yn ymwybodol o'r materion ac yn gyfarwydd â'r gwasanaeth wedi'u cydnabod.

- Gofynnodd yr Aelodau wrth y Swyddogion i nodi pa gefnogaeth y byddai'r gwasanaethau'n derbyn gan yr Uned Fasnacheiddio. Nododd Swyddogion y byddai'r gwasanaethau'n derbyn contractau allweddol a fframwaith cyflenwyr. Roeddent yn chwilio am welliannau i'r fframwaith gyflenwi, yn benodol o ran sut roedd contractau'n cael eu rheoli.

- Gofynnodd aelodau pa fesurau perfformiad oedd yn weithredol fyddai'n galluogi mewnwelediad ar y deilliannau a gyflawnwyd. Nododd swyddogion bod cynlluniau gweithredu targedu yn weithredol oedd yn cynnwys mesurau rheoli perfformiad. Byddai gwybodaeth gwsmer gwaelodlin yn cael ei hail-fesur yn ystod y broses. Byddai arolygon staff, adborth cwsmer, dangosyddion perfformiad a'r incwm a gynhyrchir yn cael eu defnyddio i fesur perfformiad. Bydd y Bwrdd C&AI yn cael ei hysbysu o'r mesurau perfformiad arfaethedig.

- Nododd aelodau ddadansoddiad buddiannau y ddau MCA. Gofynnodd aelodau os oedd y buddiannau ehangu tu hwnt i'r cyfnod pum mlynedd a nodwyd yn yr adroddiad. Nododd swyddogion fod unrhyw fuddiannau y tu hwnt i'r cyfnod pum mlynedd yn ddibynnol ar gydweithrediad cyrff eraill. Ni fyddai'r arbedion a gyflawnwyd yn cael eu cynnal am gyfnod di-ddiwedd.

- Roedd aelodau o'r farn bod £307k, sef amcan o'r cyfleoedd masnachu, rhy isel. Gofynnodd yr aelodau am eglurder o ran sail cyfrifiad y ffigwr hwn. Nododd swyddogion bod y ffigwr hwn yn ofalus iawn a'i fod wedi'i herio gan randdeiliad. Derbyniwyd ei bod hi'n bosib cyflawni mwy o ran cyfleoedd masnachu.

- Roedd Aelod o'r farn mai datrysiad tymor byr/ tymor canolig oedd model mewnol diwygiedig ar ei orau. Gofynnwyd i dystion pe byddai'r model Mewnol Diwygiedig yn gallu troi yn WOC yn y dyfodol. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd y byddai unrhyw benderfyniadau i'r dyfodol yn ddibynnol ar ystyriaethau cyllidebol a llwyddiant y model Mewnol Diwygiedig. Nid oedd yr Aelod Cabinet yn meddwl ei bod hi'n briodol i ddyfalu am y dyfodol, ond yn yr un modd, nid oedd diystyru'r WOC yn briodol.

- Nododd y Pwyllgor fod y broses MCA wedi rhagweld arbedion disgwyliedig o £13.4 miliwn yn 2014. Gofynnodd yr Aelodau i'r tystion gyflwyno sylwadau ar y diffyg o ran yr arbedion i'w cyflawni o ganlyniad i'r penderfyniad i symud i'r model Mewnol Diwygiedig. Nododd y Prif Weithredwr fod rhagfynegiadau yn enwog am fod yn anodd i'w gwneud. Nododd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad fod gan y Cyngor ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau i'r Ddinas. Roedd rhaid i'r awdurdod wneud mwy gyda llai o adnoddau. Fodd bynnag, ni wnaethpwyd y penderfyniad ar sail arian yn unig; roedd y penderfyniad terfynol yn adlewyrchu bwriad y Cabinet i fuddsoddi i mewn i wasanaethau cyhoeddus a'u gwella. Roedd y rhagfynegiadau'n ddamcaniaethol, ond roeddynt yn seiliedig ar egwyddorion arfer gorau.

- O ran masnachu, rhoddwyd gwybod i Aelodau fod cyfleoedd masnachu'n cael eu hamlygu yn y byr dymor yn y gwasanaethau rheolaeth fflyd a gwastraff masnachol. Dywedodd Swyddogion nad oedd awdurdodau cyfagos yn gweithredu gwasanaeth gwastraff masnachol, felly roedd mwy o gyfleoedd masnachol i'w hymchwilio.

- Gofynnodd Aelodau i'r tystion os oeddynt yn hyderus bod sgiliau digonol o fewn y Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd i oruchwylio'r broses o fasnacheiddio'r gwasanaethau hyn. Gwnaeth y Prif Weithredwr gydnabod y pryderon hyn. Rhoddwyd gwybod i aelodau bod gan y Cyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd y gallu masnachol mwyaf yn yr awdurdod. Roedd momentwm sylweddol tu ôl dull rheoli asedau'r gyfarwyddiaeth.

- Gofynnwyd i'r tystion roi manylion o'r mesurau oedd yn cael eu cynllunio er mwyn galluogi rheolwyr i gynnal y rhaglen. Rhoddwyd gwybod i Aelodau fod sgiliau'n bodoli o fewn y gwasanaethau presennol a bod angen creu pwl o'r sgiliau hynny a chryfhau gallu ble bo angen. Roedd yn bwysig bod gan y tîm rheoli rhyw lefel o ymreolaeth gweithredol. Atgoffwyd yr aelodau nad oedd masnacheiddio'n ymwneud â'r elw yn unig, roedd lleihau costau'n angenrheidiol hefyd.

- Un o brif bryderon Aelodau oedd p’un a oedd y gwasanaeth yn gallu ennill contractau ysgolion yn ôl ai peidio. Dywedodd yr Aelodau nad oedd y gwasanaethau oedd yn cael eu darparu i ysgolion ar hyn o bryd yn enghreifftiau o werth am arian. Nododd yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd fod hyn y mater hwn yn bryder. Ar hyn o bryd, roedd ysgolion yn talu am wasanaethau er y byddai'r awdurdod yn gallu eu darparu. Rhagwelwyd y byddai ysgolion yn cael cynnig clwstwr o wasanaethau a phrisio mwy effeithiol a chystadleuol. Dywedodd Swyddogion fod eu cyd-weithwyr yn Addysg eisiau cynnig pecyn o wasanaethau i ysgolion ac roeddent yn awyddus i glywed pa gynigion newydd all eu gwneud. Her y model Mewnol Amgen oedd cadw ac ad-ennill cwsmeriaid yn y farchnad honno.

- Nododd Aelodau fod adborth staff o fewn y gwasanaeth yn awgrymu yr hoffent wneud mwy i daclo absenoldeb, ond roeddynt yn cael eu hatal rhag gwneud hynny. Gofynnodd yr Aelodau pe byddent yn cael eu hatal rhag gwneud hynny eto. Nododd y Prif Weithredwr mai ei gyfrifoldeb ef oedd chwalu’r rhwystrau hynny.

- Ystyriodd y Pwyllgor y byddai gan Aelodau fwy o sicrwydd pe byddai cynllun busnes 4 blynedd y gwasanaeth wedi ei gyflwyno yn y cyfarfod. Nododd y Prif Weithredwr bod gofyn i Aelodau ystyried penderfyniad yr Achos Busnes Llawn. Unwaith y bydd yr ABLl wedi’i gytuno, byddai’n bosib symud ymlaen i ddatblygu’r cynllun busnes.

- Gofynnwyd i swyddogion egluro beth fyddai’n digwydd pe byddai angen economaidd yn golygu i'r model Mewnol Diwygiedig wrthdaro ag egwyddorion gwleidyddol. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd ei fod yn sicr mai’r model MD oedd yr opsiwn orau. Roedd yn benderfynol o gyrraedd sefyllfa ble roedd yr awdurdod yn penodi prentisiaethau yn ogystal â chyflogi staff eu hunain. Byddai’r Bwrdd C&AI yn rheoli, ond Cabinet fyddai'n gyfrifol am bennu cyfansoddiad y Bwrdd.

- Gofynnwyd i swyddogion ehangu ar sut roeddent yn meddwl y byddai modd cyflawni’r manylion mewnol werth £1 miliwn yn yr ABLl. Nododd Swyddogion fod y ffigwr £1 miliwn yn seiliedig ar weithio mewnol dros gyfnod o bum mlynedd, ac roedd yn seiliedig ar allu'r timoedd Rheoli Cyfleusterau i gyflenwi gwasanaethau'n fewnol yn hytrach na defnyddio gwariant allanol. Ar ben hynny, roedd trafodaethau ag awdurdodau cyfagos yn mynd rhagddynt, a byddai’r penderfyniad terfynol ar fodel y MCA yn helpu ein cymdogion i weld p’un a all y model weithio iddyn nhw ai peidio.

- Cododd Aelod bryder ynglŷn â chaffael system TG Rheoli Fflyd. Roedd Swyddogion yn ystyried y mater hwn yn flaenoriaeth. Roedd gan Swyddogion y tasg o ddod o hyd i’r system orau posib a phrofi'r meddalwedd yn erbyn SAP i sicrhau ei fod yn cydymffurfio.

- Roedd Aelodau o’r farn fod cyfrifo cadarn, heb gostau cudd megis traws-dalu ac aildalu yn hanfodol. Nododd aelodau fod hyn yn her i gyd-weithwyr Cyllid. Byddai’r gwasanaeth yn mabwysiadu dull uned fusnes ac yn cydymffurfio â rheolau cyfrifo sector gyhoeddus.

*Sylwadau Undebau Llafur*

Gwnaeth Angie Shiels ddatganiad ar ran yr holl Undebau Llafur. Diolchodd i'r Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd am ymgysylltu ag Undebau Llafur. Roedd yr Undebau 'wrth eu boddau' gyda'r Cabinet gan eu bod wedi cytuno i barhau â gwasanaeth mewnol. Ystyriodd yr Undebau bod angen brys i ail-edrych ar gontractau allanol gan y byddai modd cyflawni nifer ohonynt yn fewnol. Yn ogystal, ar hyn o bryd roedd gwasanaethau yn gweithio mewn seilos, ac nid oedd hyn yn darparu'r gwerth gorau i'r trethdalwyr. Drwy greu adain masnacheiddio, roedd yr Undebau'n gobeithio cadw gwasanaethau'n fewnol a diogelu swyddi. Roedd yr Undebau'n croesawu datganiadau'r Aelod Cabinet ynghylch prentisiaethau a chynllunio cynnydd. Croesawyd datblygu staff a hyfforddiant ystyrlon i staff rheng-flaen hefyd. Cytunodd yr Undebau fod mynd i'r afael â rheolaeth fflyd yn hanfodol. Amlygwyd darpariaeth technoleg newydd, gan gynnwys camerâu corff, yn bwysig iawn hefyd.

*Sylwadau'r Bwrdd Partneriaeth Lleol*

Siaradodd Julie McEver â'r Pwyllgor. Cafodd yr aelodau drosolwg o rôl y Bwrdd Partneriaeth Lleol o ran darparu her ac adolygu allanol drwy gydol y broses Model Cyflawni Amgen. Adolygwyd a heriwyd yr opsiynau ABLl drafft ar ddiwydrwydd dyladwy ac ati. Cafwyd adborth ar ffordd ymlaen arfaethedig.

Roedd y Bwrdd Partneriaeth Lleol yn cefnogi'r canlyniad a amlinellwyd yn yr adroddiad Cabinet drafft. Roedd y ffigyrau oedd yn cefnogi'r achos busnes Mewnol Diwygiedig yn gadarn, ac roedd yr achos dros yr opsiwn mewnol diwygiedig yn glir. Roedd y BPLl yn fodlon ar y ffaith bod digon o fanylion yn yr adroddiad Cabinet i alluogi'r Cabinet i wneud penderfyniad call.

PENDERFYNWYD – Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor i Aelodau Cabinet i gyfleu sylwadau a mynegiadau'r Pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.00 pm